Summit SKILLS

Y Cyngor Sgiliau Sector ar ran Peirianyddiaeth Gwasanaethau Adeiladu

PEIRIANNEG GWASANAETHAU ADEILADAU

Y DIWEDDARAF AR GYNGOR GYRFAOEDD – CYMRU

MAWRTH 2009

Darperir y cyngor canlynol i'r rheiny sydd eisoes yn gweithio yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau, neu'n dymuno ymuno â'r sector hwnnw.

Trosolwg

Mae SummitSkills yn ddiweddar wedi diweddaru'r rhagamcanion o ran gofynion recriwtio fel rhan o'r Adroddiad Gwybodaeth y Farchnad Lafur a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2009. O ganlyniad i'r dirywiad economaidd presennol, mae baich gwaith y sector yn cael ei effeithio mewn gwahanol ffyrdd ar draws y wlad.

Mae Cytundeb Sgiliau Sector SummitSkills a'i adroddiadau diweddaru yn nodi anghenion sgiliau yn ystod a thu hwnt i'r dirwasgiad presennol hyd at 2013. SummitSkills felly yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ar niferoedd recriwtio yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau i gyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a chyflogeion.

Mae'r duedd yn awgrymu, o ganlyniad i newidiadau mewn baich gwaith, y gallai'r rheiny sy'n gweithio yn y sector ganfod bod eu datblygiad gyrfa yn cael ei effeithio.

Cyngor i gyflogwyr presennol

Nododd y Cytundeb Sgiliau Sector yr angen i'r rheiny yn y sector barhau i hyfforddi er mwyn cyflawni lefelau cymhwysedd priodol sy'n gysylltiedig â gofynion y busnes a galluogi parhad cynhyrchedd a thwf.

Mae angen i fusnesau ystyried uwchsgilio eu gweithlu i sicrhau parhad mewn proffidioldeb y busnes drwy ennill mantais gystadleuol dros y rheiny nad ydynt yn buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant.

Mae ariannu yn parhau ar gyfer prentisiaethau a thrwy ProACT a ReACT fel rhan o'r gefnogaeth a addawyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae cyhoeddiadau diweddar hefyd yn cefnogi uwchsgilio yn y technolegau amgylcheddol ymddangosol.

Cyngor ar gyfer y rheiny sy'n colli eu gwaith yn ystod rhaglen hyfforddiant

Prentisiaid heb gyflogwr a gollodd eu lle

- Hysbyswch eich darparwr hyfforddiant cyn gynted ag y cewch wybod na all eich cyflogwr gynnig cyflogaeth bellach
- Bydd hawl gan eich darparwr hyfforddiant eich cefnogi am fis cyn i'ch prentisiaeth gael ei ohirio
- Bydd eich darparwr hyfforddiant yn gallu eich trosglwyddo i raglen lawn amser a ariennir tan i chi ganfod cyflogaeth unwaith eto
- Wrth ganfod cyflogaeth byddwch yn gallu parhau â'ch prentisiaeth

Cyflogeion sy'n colli eu gwaith

- Bydd eich darparwr hyfforddiant yn gallu parhau i gyrchu arian a'ch cefnogi gyda chyflawniad a all ddigwydd y tu allan i'r gweithle.

skills FOR BUSINESS

Summit SKILLS

Y Cyngor Sgiliau Sector ar ran Peirianyddiaeth Gwasanaethau Adeiladu

Prentisiaethau

Cyflogwyr

- Dylai cyflogwyr sy'n dymuno recriwtio prentisiaid gofrestru gyda'u hasiantaeth Addysg Bellach neu reoli leol

Pobl Ifanc

- Anogir pobl ifanc sy'n ceisio prentisiaeth yn y sector hwn i:
  - nodi eu dewis rôl gan ddefnyddio gwybodaeth am yrfaoedd yn **www.goodday.org.uk**
  - cysylltu â darparwyr hyfforddiant cenedlaethol a lleol drwy'r llinell gymorth gyrfaoedd **08000 688 336** neu linell gymorth Gyrfa Cymru **0800 100 900**
  - nodi cyflogwyr posib yn lleol a allai fod yn recriwtio
- Mae gwybodaeth yn awgrymu y bydd nifer sylweddol o brosiectau a ariennir yn gyhoeddus yn parhau ac mae gan lawer o'r rhain dargedau hyfforddiant fel rhan o'r gofynion
- Gyda'r hinsawdd economaidd bresennol mae'n debygol y bydd nifer is o gyflogwyr yn recriwtio

Sut gallaf gael mynediad i hyfforddiant?

Newydd-ddyfodiad 16 + oed

- Dylech gwrdd â'r gofynion mynediad a nodwyd yn y map gyrfaoedd, y gellir ei weld yn **www.goodday.org.uk** - os nad ydych yn cwrdd â'r gofynion hyn mae'n annhebygol y byddwch yn ennill cyflogaeth yn y sector heb gwblhau rhaglen astudiaeth yn gyntaf fydd yn eich galluogi i gyflawni'r isafswm gofynion mynediad (fel TGAU)
- Os ydych yn cwrdd â'r gofynion mynediad
  - Gallwch barhau yn yr ysgol neu Addysg Bellach i gyflawni Diploma mewn Peirianneg neu Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, efallai ar lefel uwch neu bellach
  - Gallech chwilio am brentisiaeth (gweler y cyngor i pobl ifanc uchod)

Newydd-ddyfodiad aeddfed 18 + oed neu unigolyn sy'n ailymuno â'r sector

- Nodi swyddi gwag drwy'r cysylltiadau a ddarperir yn **www.summitskills.org.uk**
  - Ar ennill cyflogaeth, parhau â hyfforddiant fel y cynghorir yn y map gyrfaoedd yn **www.goodday.org.uk**

Yn dymuno ymuno â'r sector ond yn methu â dod o hyd i gyflogwr

- Mae SummitSkills yn annog darparwyr hyfforddiant i fod yn gymdeithasol gyfrifol ac i beidio â chodi gobeithion unigolion, pan nad yw'n debygol y bydd posibilrwydd o gyflogaeth yn y dyfodol
- Gallai darparwyr hyfforddiant gynorthwyo o bosib drwy ddarparu cysylltiadau i gyflogwyr â chyfleoedd cyflogaeth a phrofiad gwaith ar gyfer hyfforddiant mewn swydd
- Gyda'r heriau sy'n wynebu'r sector, mae unrhyw un heb brofiad gwaith a sgiliau a enillir drwy hyfforddiant mewn swydd yn debygol o'i chael yn anodd dod o hyd i gyflogaeth

Gellir gweld mwy o wybodaeth yn

- **www.summitskills.org.uk**
- **www.goodday.org.uk**
- **Dewch o hyd i ddarpariaeth hyfforddiant drwy linell gymorth Gyrfa Cymru ar 0800 100 900**

skills FOR BUSINESS